**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KS/2482/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd - Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

28 Gorffennaf 2017

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr ar 5 Gorffennaf 2017 ynghylch diddordeb y Pwyllgor yn natblygiad teithiau dysgwyr yng Nghymru ac a yw awdurdodau lleol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau teithiau dysgwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod dysgwyr yn ddiogel ar eu ffordd i'r ysgol yn ogystal â hyrwyddo'u lles trwy fyw bywydau egnïol ac iach.

Cafodd y Mesur Teithio gan Ddysgwyr ei wneud yn 2008 ac ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhagor o ddeddfwriaeth sy'n ategu'r Mesur, yn arbennig Deddf Teithio Llesol 2013 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Yn 2014, datblygodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd ar gyfer asesu'r risg ar lwybrau cerdded i ysgolion gan ymestyn y meini prawf ar gyfer cloriannu a yw llwybrau cerdded i'r ysgol yn ddiogel. Rydym wedi parhau i fonitro effeithlonrwydd y canllawiau asesu risg ac rydym wrthi'n adolygu'r Cod Ymddygiad wrth Deithio. Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn fel rhan o'r adolygiad er mwyn holi barn dysgwyr.

Mae'r canllawiau yn destun monitro parhaus. Lle gwelir bod angen eu newid, mae'r canllawiau'n cael eu diweddaru a'u hailgyhoeddi. Fis Ionawr 2016 oedd y tro diwethaf i hyn ddigwydd, i wneud mân welliannau. Bydd fy swyddogion yn adolygu'r canllawiau eto cyn hir yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r canllawiau cysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'i gilydd.

Mae'r Cod Ymddygiad wrth Deithio, sy'n fesur statudol o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr, yn anelu at hyrwyddo ymddygiad da ar y daith rhwng yr ysgol a'r cartref er budd diogelwch a lles disgyblion. Wrth adolygu'r canllawiau teithiau dysgwyr, daeth yn amlwg nad oedd dysgwyr yn gwybod am y Cod. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn paratoi fersiwn newydd i ddysgu disgyblion am yr ymddygiad a ddisgwylir ganddynt, y drefn riportio a'r cosbau am dorri'r Cod. Mae dysgwyr wedi cymryd rhan lawn yn yr adolygiad o'r cod ymddygiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf bellach wedi lansio Cod Ymddygiad wrth Deithio i Gymru Gyfan, fydd yn cynnwys y safonau ymddygiad y disgwylir i ddysgwyr gadw atynt. I gyd-fynd â'r Cod, cyhoeddir canllaw statudol ar ei gyfer sy'n cynnwys fframwaith o bethau y gellid eu gwneud i wneud y Cod Ymddygiad yn fwy effeithiol. Rwyf wedi cyhoeddi canllaw i rieni ar y Cod Ymddygiad wrth Deithio i'w helpu i gefnogi teithiau diogel a chysurus i ddysgwyr.

Mae'r prosiectau 'Teithiau Llesol' a 'Cherdded i'r Ysgol yng Nghymru' hefyd yn helpu ysgolion i adolygu a gwella'r opsiynau ar gyfer teithio i'r ysgol. Mae Pecyn wedi'i baratoi er mwyn i ysgolion, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol allu cynnal adolygiadau o'r llwybrau cerdded yn eu hardaloedd, gan gynnig ffordd gynaliadwy o asesu a chlustnodi ffyrdd o wella'r seilwaith ar gyfer teithio llesol yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr deithio'n egnïol i ac o'r ysgol, a chael y manteision o ran yr iechyd a lles a ddaw o weithgarwch corfforol.

O ran cydymffurfio, yn dilyn llythyr y Gweinidog blaenorol at Awdurdodau Lleol i'w hatgoffa am eu dyletswyddau o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru), rwy'n fodlon bod yr holl Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Cynhaliodd fy swyddogion arolwg ym mis Mehefin 2016 i holi awdurdodau lleol sut yr oeddynt yn asesu risg y llwybrau cerdded i'r ysgol. Rwyf am gynnal arolwg arall dros haf 2017 i fonitro sut mae awdurdodau lleol yn ystyried yr elfen cerdded i'r ysgol o deithiau dysgwyr.

Pan welaf arwydd nad yw awdurdodau lleol yn cydymffurfio, er enghraifft mewn llythyr gan riant, byddaf yn ysgrifennu at yr awdurdod lleol dan sylw i'w atgoffa am ei ddyletswyddau a'i ymrwymiadau ac yn gofyn am sicrwydd ganddo ei fod wedi cadw at yr holl ganllawiau a deddfwriaeth. Mae'r ymatebion rwyf wedi'u cael gan awdurdodau lleol yn fy argyhoeddi bod eu sefyllfa derfynol yn cydymffurfio â'u hymrwymiadau a'u dyletswyddau.

Mae sawl opsiwn yn agored imi pe gwelid bod awdurdod lleol yn anghydymffurfio, gan gynnwys y Pŵer Cyfarwyddo o dan adran 15 y Mesur Teithio gan Ddysgwyr. Rwyf wedi ystyried rhoi Cyfarwyddyd mewn ambell achos, ond mae'r broblem wedi'i datrys bob tro trwy ohebiaeth a/neu drefniadau'r awdurdod lleol ei hun.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure